## Beth sy'n digwydd os na fyddwch yn cydymffurfio?

Os byddwch chi'n torri telerau'r gorchymyn, byddwn ni'n ei orfodi. Byddwch yn mynd yn ôl i'r llys am dorri'r gorchymyn.

Mae'n bosib y bydd y llys yn penderfynu:

- gwneud i chi gyflawni rhagor o ofynion
- gwneud y gofynion rydych chi'n eu cyflawni yn rhai caletach
- eich anfon chi i'r carchar – yn enwedig os oes gennych chi orchymyn dedfryd ohiriedig

## Amrywiaeth

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi ymrwymo i werthfawrogi a pharchu gwahaniaethau ymhlith unigolion. Os oes gennych chi unrhyw bryderon neu gwestiynau am hil, crefydd, diwylliant, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, gofal plant neu unrhyw faterion eraill, cofiwch drafod hynny â'ch rheolwr troseddwyr cyn gynted â phosib.

## Mae'r llys wedi gorchymyn eich bod yn cyflawni'r gofynion sydd wedi'u ticio isod:


- ☐ **Goruchwylio** – sesiynau rheolaidd â rheolwr troseddwyr i'ch helpu i roi'r gorau i droseddu
- ☐ **Gwaith Di-dâl (Gwneud Iawn â'r Gymuned)** – byddwch yn gweithio yn y gymuned, yn gwneud iawn am y niwed rydych wedi'i achosi
- ☐ **Rhaglen** – cwrs i'ch helpu i newid er mwyn i chi roi'r gorau i aildroseddu
- ☐ **Adsefydlu ar ôl bod yn gaeth i Gyffuriau** – i'ch helpu i oresgyn eich problem gyffuriau drwy gael triniaeth a phrofion
- ☐ **Triniaeth ar gyfer alcohol** – i'ch helpu i oresgyn eich problem alcohol
- ☐ **Cyrffyw** – i'ch atal rhag mynd allan rhwng oriau y cytunwyd arnynt, gyda monitor electronig weithiau
- ☐ **Preswylio** –rhaid i chi fyw rhywle y mae'r llys wedi cytuno arno
- ☐ **Gweithgaredd** – gweithgaredd i wella eich sgiliau neu dreulio amser gyda dioddefwr eich trosedd
- ☐ **Gwahardd** – i'ch atal rhag mynd i rywle oherwydd eich bod wedi cyflawni trosedd yno
- ☐ **Gweithgaredd a waherddir** – sy'n eich gwahardd rhag gwneud rhywbeth fel mynd i weld gêm bêl-droed neu ddefnyddio'r rhyngrwyd
- ☐ **Triniaeth Iechyd Meddwl** – cymorth meddygol proffesiynol ar gyfer problemau sydd wedi eich arwain at droseddu
- ☐ **Canolfan ymbresenoli (ar gyfer unigolion o dan 25 oed)** – rhaid i chi fynd i ganolfan ymbresenoli ar amser penodol

**Dyma yw eich gweithgaredd neu raglen:**

.....................................................................

NPS02 - (05.14)

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol



# Eich Dedfryd Gymunedol

Gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig

Beth yw hyn a sut mae ei gwblhau'n llwyddiannus

NPS02

# Rydych chi wedi eich dedfrydu i'r canlynol:

- [ ] Gorchymyn Cymunedol. Mae hwn yn cynnwys un neu ragor o "ofynion" y mae'r llys wedi gorchymyn i chi eu cyflawni.
- [ ] Gorchymyn Dedfryd Ohiriedig. Dedfryd o garchar y byddwch yn ei bwrw yn y gymuned yw hon, sy'n cynnwys un neu ragor o ofynion y mae'r llys wedi gorchymyn i chi eu cyflawni. Os byddwch chi'n torri'r ddedfryd, byddwch yn cael eich anfon i'r carchar yn awtomatig.

# Gweithio gyda'ch rheolwr troseddwyr?

Rheolwr troseddwyr yw'r sawl sy'n gweithio gyda chi tan ddiwedd eich gorchymyn. Bydd yn gweithio i un o ddau sefydliad – i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu i Gwmni Adsefydlu Cymunedol. Mae'r sefydliadau hyn yn cydweithio'n agos. Byddwch yn gweithio gyda phobl eraill hefyd.

Bydd eich rheolwr troseddwyr yn eich annog i feddwl am y pethau yn eich bywyd a allai eich arwain at aildroseddu.

Byddwch chi a'ch rheolwr troseddwyr yn cytuno ar gynllun gweithredu i chi ei ddilyn yn ystod eich dedfryd. Eich cynllun dedfrydu yw hwn.

Os oes gennych ofyniad goruchwylio, byddwch yn cwrdd â'ch rheolwr troseddwyr yn rheolaidd i weld sut mae pethau'n mynd i chi.

# Sut gall y gwasanaeth prawf eich cefnogi chi?

Ni allwn ddatrys eich holl broblemau, ond mae yna nifer o bethau y gall y gwasanaeth prawf eu cynnig.

Ar eich gorchymyn chi, gallwn ni, a sefydliadau eraill, geisio eich helpu i wneud y canlynol:

- rhoi'r gorau i droseddu
- goresgyn problemau alcohol neu gamddefnyddio cyffuriau
- cael swydd, hyfforddiant neu addysg (gan gynnwys Saesneg a mathemateg sylfaenol)
- cael trefn ar ddyledion a budd-daliadau
- cael trefn ar faterion llety
- cynllunio ar gyfer y dyfodol

Hon yw eich swyddfa brawf. Os oes angen cysylltu â'ch rheolwr troseddwyr arnoch, dyma'r rhif ffôn. Peidiwch â cheisio cysylltu â'ch rheolwr troseddwyr mewn unrhyw ffordd arall, oni bai fod rhywun wedi dweud wrthych chi.

# Beth sydd rhaid i mi ei wneud?

Bydd eich rheolwr troseddwyr yn gwneud popeth a all i'ch helpu i gwblhau eich gorchymyn, ond mae'n bwysig eich bod yn gwneud ymdrech eich hun.

Dyma y mae'n rhaid i chi ei wneud:

- cadw at eich apwyntiadau a bod ar amser
- cyrraedd gyda meddwl clir, dim o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau
- cymryd rhan frwd
- rhoi'r gorau i droseddu
- trin staff prawf a phobl eraill rydych chi'n cwrdd â nhw yn ystod eich dedfryd, â pharch
- rhoi gwybod i'ch rheolwr troseddwyr ar unwaith os ydych chi'n bwriadu newid eich cyfeiriad neu eich rhif ffôn
- rhoi gwybod i'ch rheolwr troseddwyr ar unwaith os na allwch gadw at apwyntiad
- dweud wrth eich rheolwr troseddwyr os ydych chi'n cael problem gydag unrhyw ran o'ch cynllun dedfrydu